# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Dylan Rees, J Arwel Roberts, Dafydd Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democratiadd<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Richard Griffiths |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2018 fel rhai cywir.

**3 GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD SGRIWTINI**

Cyflwynwyd – adroddiad diweddariad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd mewn ymateb i benderfyniad y Cyngor ar 28 Medi 2018 i gyfeirio Rhybudd o Gynigiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i wneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch gwe-ddarlledu'r ddau Bwyllgor Sgriwtini.

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod cyfarfodydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn cael eu gwe-ddarlledu ar hyn o bryd. Nododd nad yw gwe-ddarlledu yn ofyniad deddfwriaethol, ond bod Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi'n gryf, a'i fod yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth yn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, i gryfhau democratiaeth leol ac ymgysylltiad cymunedol.

Nododd fod y costau gwe-ddarlledu cyfredol fesul blwyddyn yn tua £12,000. Rhagwelir y byddai'r costau gwe-ddarlledu ychwanegol yn tua £3,000 y flwyddyn ar gyfer llogi'r offer, ynghyd â £3,500 ar gyfer amser staff.

**PENDERFYNWYD argymell peidio gwneud unrhyw newidiadau i'r**

**trefniadau presennol ar gyfer gwe-ddarlledu.**

## 4 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD MEWN CYFARFODYDD

Cyflwynwyd – adroddiad diweddariad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd mewn ymateb i benderfyniad y Cyngor ar 28 Medi 2018 i gyfeirio Rhybudd o Gynigiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i wneud argymhellion i'r Cyngor i addasu'r Cyfansoddiad er mwyn caniatáu i gynigion sy'n cael eu cynnig gan aelodau o'r cyhoedd ac sydd wedi'u cefnogi gan lofnodion 50 o unigolion sy'n byw ar Ynys Môn, gael eu trafod yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor.

Nid yw Rheolau Gweithdrefn y Cyngor (Para 4.1 o'r Cyfansoddiad) yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cynigion a gaiff eu cyflwyno gan aelodau o'r cyhoedd.

**PENDERFYNWYD argymell peidio gwneud unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad.**

## 5 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYFER 2019/20

Cyflwynwyd – adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar yr Adroddiad Blynyddol Drafft gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2019/20, sy'n cyflwyno'r math a lefelau o dâl y mae awdurdodau lleol yn eu rhoi i'w haelodau a'u haelodau cyfetholedig.

Nodwyd eu bod wedi ymgynghori gydag Arweinyddion y Grwpiau ar y cynigion sy'n effeithio ar yr awdurdod hwn.

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y bydd y broses ymgynghori yn dod i ben ar 27 Tachwedd 2018, ac y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2019.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn ystyried y penderfyniadau drafft a gyflwynwyd, a chytunodd i dderbyn yr argymhellion yn adroddiad y Panel Annibynnol.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 am

**Y CYNGHORYDD ROBERT LL JONES**
**CADEIRYDD**